# Tybaco a Fêps: ymgynghoriad ar becynnau, edrychiad, ac arddangos cynnyrch

# Arddangos cynhyrchion fepio, nicotin a dyfeisiau a chynhyrchion sy'n gysylltiedig â thybaco

# Asesiad cam ymgynghori o'r Effaith Integredig

## Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

### Nodau'r Polisi, ei Gyflawni a'i Effeithiau

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno rheoliadau i gyfyngu ar arddangos cynhyrchion tybaco, dyfeisiau fepio a chynhyrchion nicotin eraill mewn lleoliadau manwerthu. Nod y camau arfaethedig yw lleihau gwelededd a lleihau hyrwyddo'r cynhyrchion hyn, yn enwedig i blant a phobl ifanc, er mwyn atal defnydd a niwed hirdymor.

Mae smygu yn parhau i fod yn her iechyd cyhoeddus hirdymor sylweddol yng Nghymru. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 3,845 o farwolaethau a mwy na 17,000 o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn yn cael eu priodoli i smygu.[1] Mae hefyd yn ysgogwr allweddol o anghydraddoldeb, sy'n effeithio'n anghymesur ar gymunedau mwy difreintiedig.[2] Mae costau economaidd a baich ariannol smygu hefyd yn sylweddol yng Nghymru, sef £1.56 biliwn ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, cynhyrchiant ac amgylcheddol.[3] Mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n fepio ond nad ydynt erioed wedi smygu, cynnydd sy'n cael ei gymell i raddau helaeth gan oedolion ifanc.[4] [5] Mae hyn yn arwydd o newid posibl mewn patrymau ymddygiad ac yn peryglu creu carfan newydd o unigolion sy'n ddibynnol ar nicotin. Er bod fepio yn llai niweidiol na smygu, nid yw'n ddi-risg, gyda thystiolaeth yn tynnu sylw at gysylltiadau â niweidiau anadlol, cardiofasgwlaidd a dibyniaeth.[6] Gall dod i gysylltiad â nicotin gael effeithiau arbennig ar ddatblygiad y glasoed.[7]

---

[1] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2024) Marwolaeth a chlefydau ysbyty sy'n perthyn i ysmygu ar gyfer Cymru 2020 i 2022
[2] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2024) Marwolaeth a chlefydau ysbyty sy'n perthyn i ysmygu ar gyfer Cymru 2020 i 2022
[3] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2026) Cost Ysmygu yng Nghymru
[4] Action on Smoking and Health (ASH) (2024) Use of vapes (e-cigarettes) among young people in Great Britain.
[5] Jackson, S et al. (2024) *The Lancet Public Health.* Vaping among adults in England who have never regularly smoked.
[6] Banks, E et al. (2023) *Medical Journal of Australia.* Electronic cigarettes and health outcomes: umbrella review.
[7] Leslie, F (2020) *Pharmacology Biochemistry and Behavior.* Unique long term effects of nicotine on adolescent brain.

Mae'n anghyfreithlon gwerthu fêps i unrhyw un yn y DU o dan 18 oed. Er gwaethaf hyn, mae tystiolaeth yn dangos bod fepio dan oed hefyd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yng Nghymru, mae arolwg a luniwyd yn 2023 yn adrodd bod dros chwarter dysgwyr (26%) rhwng 11 a 17 oed wedi rhoi cynnig ar fepio, gyda 7% o'r rhai a arolygwyd yn fepio'n rheolaidd.[8] Mae'r tueddiadau hyn yn gyson â thystiolaeth arall yn y DU sy'n dangos cynnydd cyflym mewn arbrofi a defnydd ymhlith pobl ifanc.[9] [10]

Mae cynhyrchion fepio yn cael eu gosod fwyfwy mewn arddangosfeydd trawiadol mewn lleoliadau amlwg mewn siopau manwerthu. Canfu ymchwil gan Imperial College, Llundain (ICL) fod dros ddwy ran o dair (67%) o'r ymatebwyr rhwng 11 a 18 oed yn ymwybodol o gynhyrchion fepio yn cael eu hyrwyddo mewn siopau.[11] Mae'n debygol bod y gwelededd hwn wedi cyfrannu at y defnydd cynyddol gan blant a phobl ifanc.

Mae'r cyfyngiadau ar gynhyrchion nicotin yn cynnwys codennau nicotin. Codennau bach o nicotin yw'r rhain, sy'n cael eu rhoi yn y geg ac sy'n rhyddhau nicotin i'r llif gwaed. Mae nicotin yn codi cyfradd curiad y galon a phwysedd gwaed ac yn tynhau pibellau gwaed. Mae hyn yn cynyddu'r risg o broblemau difrifol ar y galon dros amser. Gall yr effeithiau hyn fod yn fwy dwys pan fydd nicotin yn cael ei amsugno drwy'r geg.[12] Mae pryderon hefyd am yr effeithiau ar iechyd y geg.[13]

Yn yr un modd â chynhyrchion fepio, mae codennau nicotin yn cael eu gwerthu mewn deunydd pacio lliwgar ac maent ar gael mewn amrywiaeth o flasau, gan apelio at ddefnyddwyr arbrofol newydd, ifanc.[14] Yn 2025, roedd 43% o blant rhwng 11 a 17 oed ym Mhrydain Fawr yn ymwybodol o godennau nicotin, ac roedd bron i 4% wedi rhoi cynnig arnynt.[15]

Mae dyfeisiau cynhesu tybaco yn gynhyrchion cymharol newydd sy'n gweithio drwy ddefnyddio dyfais electronig i gynhesu tybaco. Er eu bod yn aml yn cael eu marchnata fel cynnyrch iachach na sigaréts traddodiadol, mae'r dystiolaeth yn

---

[8] Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (2024) 'Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith 2023/24'. Ar gael yn: Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant Ysgolion Uwchradd

[9] Jackson, S et al. (2024) *The Lancet Public Health.* Vaping among adults in England who have never regularly smoked.

[10] Action on Smoking and Health (ASH) (2024) 'Use of vapes (e-cigarettes) among young people in Great Britain'.

[11] Parnham, J et al. (2024) *Tobacco Control*. Changing awareness and sources of tobacco and e-cigarettes among children and adolescents in Great Britain.

[12] Abid, S et al. (2025) *Frontiers in public health.* Nicotine pouches and youth: emerging patterns and potential cardiovascular risks.

[13] Rungraungrayabkul, D et al. (2024) *BMC Oral Health.* What is the impact of nicotine pouches on oral health: a systematic review.

[14] Abid, S et al. (2025) *Frontiers in public health.* Nicotine pouches and youth: emerging patterns and potential cardiovascular risks

[15] Action on Smoking and Health (ASH) Nicotine pouches - ASH (cyrchwyd Mehefin 2026)

awgrymu nad ydynt yn lleihau'r risg o glefydau a achosir gan dybaco'n sylweddol i unigolion. [16,17]

Nid yw'r cyfyngiadau ar arddangos cynhyrchion tybaco eraill ar hyn o bryd yn berthnasol i ddyfeisiau cynhesu tybaco, sy'n golygu bod plant a phobl ifanc yn gweld y cynhyrchion hyn. Yn 2025, roedd bron i chwarter y plant a'r bobl ifanc a arolygwyd yn gwybod am dybaco wedi'i gynhesu ac roedd bron i 3% wedi rhoi cynnig ar dybaco wedi'i gynhesu.[18]

Dylai ehangu'r cyfyngiadau pwynt gwerthu presennol ar gyfer tybaco i gynhyrchion tybaco, fepio a nicotin ychwanegol leihau'r atyniad a pheidio normaleiddio'r cynhyrchion hyn. Mae'r dull gweithredu wedi bod yn llwyddiannus ar gyfer cynhyrchion tybaco eraill, lle mae cyfyngu ar arddangosfeydd mewn mannau gwerthu wedi arwain at ostyngiad parhaus mewn cyffredinrwydd. Mae ymchwil wedi dangos bod arddangosfeydd yn cynyddu agweddau o blaid smygu ymhlith pobl ifanc, y tueddiad i smygu a dechrau smygu.[19]

Bydd y cynigion i gyfyngu ar arddangos cynhyrchion tybaco, dyfeisiau fepio a chynhyrchion nicotin eraill mewn lleoliadau manwerthu yn cael eu cyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth, gan ddefnyddio pwerau o fewn Deddf Tybaco a Fêps 2026.

Bydd cynhyrchion yn parhau i fod ar gael ar gais, gan gadw mynediad i oedolion ond sicrhau bod plant a phobl ifanc yn dod i lai o gysylltiad â nhw. Bydd gwaith gorfodi yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol o fewn y fframweithiau presennol.

Bydd cyflawni yn cael ei gefnogi gan ganllawiau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda dull cyffredin y cytunwyd arno gan lywodraethau'r DU a llywodraethau datganoledig i sicrhau eglurder a chysondeb.

Mae'r sylfaen dystiolaeth ynghylch effeithiau hirdymor fepio, cynhyrchion tybaco wedi'u cynhesu a chodennau nicotin yn dal i ddatblygu, fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd y cynnig yn arwain at werth cyhoeddus hirdymor drwy well canlyniadau iechyd a llai o alw am ofal iechyd. Bydd manteision hefyd fel gwell llesiant a llai o anghydraddoldeb.

Mae'r effaith debygol ar smygwyr sy'n oedolion sy'n defnyddio fêps fel cymorth i roi'r gorau i smygu yn ansicr ar hyn o bryd. Gall gwelededd llai effeithio ar safbwyntiau am hygyrchedd, er bod argaeledd yn parhau i fod yn ddigyfnewid.

Yn ogystal, bydd costau tymor byr i fanwerthwyr, a mwy o bwysau ar gyrff gorfodi, i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw reoliadau newydd.

---

[16] Ghazi, S et al. (2022) *Tobacco induced diseases.* A scoping review of the toxicity and health impact of IQOS.
[17] Committee on Toxicity (2017) Statement on the toxicological evaluation of novel heat not-burn tobacco products.
[18] Action on Smoking and Health (ASH) Heated tobacco - ASH (cyrchwyd Mehefin 2026).
[19] Haw, S et al. (2020) *NIHR Journals Library.* The impact of the point of sale tobacco display ban on young people.

## Pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

### Y Tymor Hir ac Atal

Mae'r cynnig yn ymateb i'r tueddiadau hirdymor o fepio cynyddol ymhlith ieuenctid a defnyddio cynhyrchion fel codennau nicotin a thybaco wedi'i gynhesu. Mae cynnydd yn y defnydd ymhlith plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai nad ydynt erioed wedi smygu, yn peryglu sefydlu cenhedlaeth newydd sy'n ddibynnol ar nicotin ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dros amser.

Mae'r cynnig yn adlewyrchu ffocws ataliol cryf drwy dargedu'r pethau amgylcheddol ac ymddygiadol sy'n ysgogi'r defnydd o nicotin.

Mae arddangosfa manwerthu yn gweithredu fel math o hyrwyddo, gan atgyfnerthu gwelededd, normaleiddio ac ymddygiad prynu.[20] Mae tystiolaeth yn dangos bod gweld arddangosfeydd o'r fath yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn arbrofi.[21] Mae cyfyngu ar arddangos cynhyrchion fepio, nicotin a thybaco yn helpu i atal defnydd cyn i'r ymddygiad gael ei sefydlu.

### Integreiddio

Mae'r asesiad effaith hwn yn ymwneud â chyfyngiadau ar arddangos cynhyrchion fepio, nicotin a thybaco yng Nghymru fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad ar y cyd rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnig rheoleiddio pecynnau cynnyrch tybaco, fepio a nicotin ac edrychiad dyfeisiau.

Mae'r cynigion yn ategu ac yn cyd-fynd â mesurau rheoleiddio eraill yn y Ddeddf Tybaco a Fêps. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngu ar werthu cynhyrchion tybaco a smygu i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009 a gwahardd hysbysebu a noddi fêps a chynhyrchion nicotin. Mae'r dull yn cydnabod bod angen camau gweithredu cydgysylltiedig i gael yr effaith fwyaf a symleiddio cyflawni.

Byddai lleihau dod i gysylltiad â fêps a chynhyrchion nicotin neu dybaco eraill yn arwain at lawer o fanteision traws-lywodraethol ac yn cefnogi nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

**Cymru iachach** Cefnogi cyffredinrwydd is fepio, codennau nicotin a thybaco wedi'i gynhesu i atal dibyniaeth ar nicotin a lleihau'r galw hirdymor ar wasanaethau iechyd.

**Cymru fwy cyfartal** Bydd sicrhau bod arddangos cynhyrchion tybaco, fepio a nicotin yn cael eu cyfyngu mewn mannau manwerthu yn lleihau anghydraddoldebau o ran y risg o ddod i gysylltiad â nhw.

---

[20] Paynter, J & Edwards, R (2009) *Nicotine & Tobacco Research.* The impact of tobacco promotion at the point of sale: A systematic review

[21] Ford, A et al. (2020) *Tobacco Control.* Impact of tobacco retail displays on young people's behaviour.

**Cymru Ffyniannus** Bydd lleihau fepio ymhlith plant oedran ysgol yn gwella canlyniadau academaidd gan fod astudiaethau yn cysylltu fepio mewn ieuenctid â chanlyniadau academaidd gwael, colli ysgol heb ganiatâd a tharfu ar ymddygiad mewn ysgolion.

**Cymru Wydn** Lleihau'r effaith amgylcheddol a achosir gan wastraff, sbwriel a deunyddiau fêps, codynnau nicotin a chynnyrch tybaco wedi'i gynhesu.

**Cymunedau cydlynus** Cefnogi mannau cyhoeddus iachach a mwy diogel a lleihau normaleiddio ymddygiadau caethiwus.

## Cydweithredu

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gydag Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, yr Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban i sicrhau ymagwedd gyson at gyfyngiadau manwerthu ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys cydweithio ar gyfathrebu ar draws y DU a chysoni deddfwriaeth. Bydd Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn parhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod argymhellion yn cael eu mabwysiadu mewn modd cyson ar draws y DU, er mwyn sicrhau rheoleiddio yn yr un ffordd.

Mae tystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol yn cefnogi gweithredu i leihau gwelededd tybaco a chynhyrchion nicotin, gan gynnwys galwadau gan Sefydliad Iechyd y Byd i gryfhau rheolaethau ar hyrwyddo.[22] Mae'r cynigion wedi'u hadeiladu ar dystiolaeth ymchwil academaidd, sefydliadau iechyd y cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda thimau safonau masnach awdurdodau lleol a phartneriaid iechyd cyhoeddus a fydd yn chwarae rôl allweddol wrth weithredu a chefnogi ein cynigion.

## Cynnwys

Lansiodd y DU a llywodraethau datganoledig ymgynghoriad ar gyfer y DU gyfan ym mis Tachwedd 2023, Creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymhlith ieuenctid. Cafwyd llawer o ddiddordeb yn yr ymgynghoriad, gyda bron i 28,000 o ymatebion wedi'u derbyn.

Dangosodd yr ymatebion bod cefnogaeth glir i gyfyngu ar arddangosfeydd ar gyfer cynhyrchion fepio mewn mannau gwerthu. Roedd mwyafrif da (68% o'r ymatebwyr) yn cytuno na ddylai fêps gael eu harddangos, yn yr un modd â chynhyrchion tybaco. Un o'r prif themâu yn y sylwadau oedd y gall arddangosfeydd fepio fod yn ddeniadol ac yn apelgar i blant a phobl nad ydynt yn smygu ac yn gwneud iddo ymddangos ei bod hi'n iawn i fepio.

---

[22] World Health Organization (2021). WHO Framework Convention on Tobacco Control.

Byddwn yn defnyddio dull gweithredu cymunedol wrth i ni weithredu unrhyw gynigion sy'n cael eu cyflwyno i sicrhau ein bod yn cydweithio ac yn cefnogi unrhyw grwpiau a allai gael eu heffeithio'n anghymesur gan ein cynigion. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc, pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'r rhai a fyddai'n elwa o ddefnyddio fêps fel cymorth rhoi'r gorau i smygu.

## Adran 8. Casgliad

### 8.1 Sut cafodd y bobl, y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt, eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Cyhoeddwyd ymgynghoriad ledled y DU yn archwilio mesurau i greu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymhlith ieuenctid ym mis Hydref 2023. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau ar gyfyngu ar arddangos cynhyrchion fepio. Cafodd yr ymgynghoriad gyhoeddusrwydd da a'i gyfathrebu i gymunedau ledled y DU. O ganlyniad, cafwyd dros 28,000 o ymatebion, gan gynnwys 896 o sefydliadau a 27,025 o unigolion. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn na ddylai cynhyrchion fepio gael eu harddangos, yn debyg i'r cyfyngiadau presennol ar sigaréts.[23]

Yng Nghymru, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru grŵp ymateb i ddigwyddiadau a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o waith ieuenctid ac addysg, yn ogystal ag iechyd y cyhoedd. Trefnodd y grŵp grwpiau ffocws lluosog gyda phlant a phobl ifanc rhwng 11 a 24 oed. Er bod y ffocws ar fepio, trafodwyd cynhyrchion tybaco a nicotin eraill hefyd.[24] Fe wnaeth barn plant a phobl ifanc gyfrannu at argymhellion y grwpiau i Bwyllgor Biliau Cyhoeddus y Bil Tybaco a Fêps y byddai cyfyngiadau ar arddangos yn effeithiol o ran lleihau cyfraddau fepio.[25] Mae Comisiynydd Plant Cymru hefyd wedi cynnal grŵp ffocws ar fepio a'i hyrwyddo.[26]

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Nododd yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant fod y cynigion yn bodloni gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac yn debygol o gael sawl effaith gadarnhaol megis gwella iechyd a llesiant, lleihau anghydraddoldebau, amddiffyn rhag camfanteisio, a chefnogi addysg.

Disgwylir i'r polisi gael rhai effeithiau negyddol ar hawliau a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru, drwy gyfyngu ar eu rhyddid mynegiant, mynediad at wybodaeth

---

[23] Department of Health and Social Care (2024) Creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc.
[24] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2024) Fepio ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru: Adroddiad digwyddiad, Iechyd Cyhoeddus Cymru
[25] Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus ar gyfer y Bil Tybaco ac fêps gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau (2024). Cyrchwyd yn: https://bills.parliament.uk/publications/55466/documents/4823
[26] Comisiynydd Plant Cymru. 2024 Fepio - Comisiynydd Plant Cymru (cyrchwyd Mehefin 2026).

a gweithgareddau hamdden, chwarae a diwylliant. Mae potensial hefyd i blant a phobl ifanc gael eu gwthio tuag at y farchnad ddu neu gynhyrchion tybaco eraill.

Fodd bynnag, mae'r effeithiau hyn cael eu gorbwyso a mwy gan fanteision y polisi a gellir eu lliniaru gan fesurau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod y polisi'n glir, yn gyson ac yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyd-fynd â strategaethau addysg, ymgysylltu a gorfodi.

Nododd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fod cynhyrchion fepio, codennau nicotin a dyfeisiau cynhesu tybaco yn peri risg fawr i iechyd plant a phobl ifanc yn ogystal ag oedolion nad ydynt yn smygu.

Mae fêps, codennau nicotin a dyfeisiau cynhesu tybaco i gyd yn cynnwys nicotin. Mae hwn yn sylwedd hynod gaethiwus gyda symptomau'n cynnwys chwant am nicotin, gorbryder, hwyliau isel ac anhawster canolbwyntio.27 Mae nicotin hefyd yn codi pwysedd gwaed.[28]

Mae'n hysbys bod fepio yn cael effeithiau anadlol andwyol, gan waethygu cyflyrau fel asthma. Ers 2020, mae codau clinigol i gofnodi niweidiau sy'n gysylltiedig â fepio wedi bod ar gael yng Nghymru. Yn 2022, roedd 11 derbyniad i'r ysbyty ar gyfer unigolion 19 oed neu iau a 53 o dderbyniadau i'r ysbyty ar gyfer unigolion 20 oed neu hŷn oherwydd anhwylderau sy'n gysylltiedig â fepio.[29]

Mae tybaco wedi'i gynhesu yn aml yn cael ei farchnata fel cynnyrch iachach na sigaréts traddodiadol, ond mae'r dystiolaeth yn dangos bod sylweddau gwenwynig a charsinogenaidd yn bresennol yn yr aerosol. [30] [31]

Gallai'r cynigion gael effaith negyddol ar smygwyr presennol. Mae dros hanner y bobl yng Nghymru sy'n fepio yn dweud eu bod yn fepio i roi'r gorau i smygu neu i leihau faint maen nhw'n ei smygu.[32] Mae dyfeisiau fepio yn arwain at lawer llai o risgiau iechyd o'i gymharu â sigaréts a gallant fod yn offeryn effeithiol i gefnogi rhoi'r gorau i smygu.[33] Fodd bynnag, deallir bod rhai smygwyr yn credu bod fepio mor niweidiol ag smygu.[34] Gall gosod cyfyngiadau ar arddangos cynhyrchion fepio achosi i lai o bobl sy'n smygu newid i fêps i leihau eu risgiau iechyd.

Dylai bod effaith amgylcheddol gadarnhaol yn gysylltiedig â'r gostyngiad yn y defnydd o fêps, codennau nicotin a dyfeisiau cynhesu tybaco. Mae hyn oherwydd bod dyfeisiau fepio, codennau nicotin a dyfeisiau cynhesu tybaco yn aml yn cael eu

---

[27] Golder, S et al. (2025) *Tobacco Control.* Vaping and harm in young people: umbrella review.
[28] Office for Health Improvement and Disparities (2022) Nicotine vaping in England: 2022 evidence update.
[29] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2024) Fepio ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru: Adroddiad digwyddiad, Iechyd Cyhoeddus Cymru
[30] Ghazi, S et al. (2022) A scoping review of the toxicity and health impact of IQOS - PMC (nih.gov)
[31] Committee on Toxicity (2017) Statement on the toxicological evaluation of novel heat not-burn tobacco products.
[32] Action on Smoking and Health (ASH) (2025) Arolwg Blynyddol Poblogaeth Oedolion ASH Cymru 2025.
[33] Office for Health Improvement and Disparities (2022) Nicotine vaping in England: 2022 evidence update.
[34] Action on Smoking and Health (ASH) (2025) Arolwg Blynyddol Poblogaeth Oedolion ASH Cymru 2025.

taflu neu ddim yn cael eu hailgylchu'n gywir.[35] Mae hyn yn achosi nifer o faterion amgylcheddol gan gynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr, llygredd mewn dyfrffyrdd a phridd a difrod i fywyd gwyllt.[36] [37] [38] Yn ogystal, mae cynhyrchu dyfeisiau fepio a dyfeisiau cynhesu tybaco yn achosi colli deunyddiau gwerthfawr fel lithiwm a cobalt.[39]

Bydd hefyd cost yn gysylltiedig â darparu cyfyngiadau arddangos newydd ar gyfer busnesau yr effeithir arnynt ac i swyddogion gorfodi i sicrhau bod rheoliadau newydd yn cael eu bodloni.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynigion hyn yn cefnogi amcanion llesiant Llywodraeth Cymru drwy ddarparu dull ataliol hirdymor, a fydd yn cefnogi llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl yng Nghymru. Mae'n cefnogi nodau Cymru Iachach, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru Ffyniannus, Cymru Wydn a Chymunedau Cydlynus.

Mae'r cynigion yn amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol drwy wneud yn siŵr eu bod yn dod i lai o gysylltiad â marchnata a normaleiddio cynhyrchion sy'n gysylltiedig â fepio, nicotin a thybaco. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyfyngu ar arddangos mewn mannau gwerthu yn ffordd effeithiol o leihau arbrofi a lleihau defnydd o'r cynhyrchion hyn gan blant a phobl ifanc, gan helpu i atal dibyniaeth ar nicotin a gwella canlyniadau iechyd hirdymor.[40] [41] Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o fod yn agored i farchnata fepio ac i ddefnyddio cynhyrchion fepio, felly disgwylir i'r polisi wneud cyfraniad cadarnhaol at leihau anghydraddoldebau iechyd.[42]

Er mwyn gwneud y mwyaf o fanteision y cynigion a chynnal hawliau plant, bydd gweithrediad y polisi yn cael ei gefnogi gan gyfathrebu ac ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc. Bydd hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth sy'n briodol i oedran am fepio, codennau nicotin a thybaco wedi'i gynhesu drwy ysgolion

---

[35] Material Focus (2026) 6m vapes and pods are thrown away every week despite the vape ban
[36] Material Focus (2026) 6m vapes and pods are thrown away every week despite the vape ban
[37] Cancelada, L *et al* (2019) *Environmental Science & Technology* Heated Tobacco Products: Volatile Emissions and Their Predicted Impact on Indoor Air Quality
[38] Al Gouhmani, H et al. *Public Health and Toxicology* Heated tobacco products: A new challenge for environmental impact assessment
[39] Material Focus (2026) 6m vapes and pods are thrown away every week despite the vape ban
[40] Laverty, A et al. (2018) *Tobacco Control.* Child awareness of and access to cigarettes: Impacts of the point-of-sale display ban in England.
[41] Best, C et al. (2018) *Tobacco Induced Diseases.* Effect of seeing e-cigarettes in small shops on probability of e-cigarette experimentation by 1 year follow up in adolescents in Scotland, UK.
[42] Parnham J *et al (*2024) *Tobacco Control.* Changing awareness and sources of tobacco and e-cigarettes among children and adolescents in Great Britain

ac ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd. Bydd gwasanaethau cymorth fel Helpa Fi i Stopio a DAN 24/7 yn parhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd eisoes yn gaeth i gynhyrchion nicotin. Bydd y camau hyn yn helpu i gynnal hawliau plant i iechyd, gwybodaeth a chyfranogiad tra'n lleihau faint y byddant yn dod i gysylltiad â hyrwyddo masnachol.

Er mwyn cryfhau ei chyfraniad at amcanion cydraddoldeb, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau clir i fanwerthwyr a chyrff gorfodi gan dynnu sylw at eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol pan fo angen.

Ni ddisgwylir i'r polisi gael effaith sylweddol ar y Gymraeg, ond bydd yr ymgynghoriad, y canllawiau a'r deunyddiau cyfathrebu cyhoeddus yn cael eu darparu yn ddwyieithog. Bydd hyn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r polisi yn gyfartal yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r polisi yn cyfrannu at amcanion amgylcheddol a bioamrywiaeth drwy leihau'r defnydd o fêps, codennau nicotin a chynhyrchion cynhesu tybaco. Mae'r cynhyrchion hyn yn aml yn cael eu taflu neu eu gwaredu'n anghywir sy'n achosi gwastraff a llygredd, gan niweidio bioamrywiaeth. Mae yna hefyd bwysau ar adnoddau naturiol oherwydd gweithgynhyrchu fêps a dyfeisiau cynhesu tybaco. Byddwn yn gwneud y mwyaf o fuddion amgylcheddol drwy dynnu sylw at y problemau a achosir gan daflu cynhyrchion fepio, dyfeisiau cynhesu tybaco a chynhyrchion nicotin, neu eu hailgylchu'n anghywir.

Y prif effaith negyddol bosibl a nodwyd yw'r posibilrwydd y gallai cyfyngiadau arddangos atal rhai smygwyr sy'n oedolion rhag newid i ddefnyddio dewisiadau amgen llai niweidiol fel fêps. Mae risg hefyd y gallai rhai grwpiau, gan gynnwys menywod beichiog, pobl ar incwm isel a grwpiau eraill sydd â nifer uchel o smygwyr, gael eu heffeithio'n anghymesur os ydynt yn llai tebygol o gael mynediad at gynhyrchion rhoi'r gorau i smygu.

Bydd y risgiau hyn yn cael eu lliniaru drwy strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr sy'n nodi'n glir bod cynhyrchion fepio yn parhau i fod ar gael yn gyfreithlon i oedolion ac y gellir eu defnyddio i gefnogi rhoi'r gorau i smygu, ond pwysleisir nad ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer plant neu bobl nad ydynt yn smygu. Bydd ymgyrch i hyrwyddo gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi pobl i roi'r gorau i smygu. Bydd yr ymgyrch yn targedu grwpiau sydd fwyaf angen cefnogaeth, gan gynnwys cymunedau difreintiedig, pobl ifanc, menywod beichiog a grwpiau eraill lle mae niferoedd uwch o bobl yn smygu. Bydd canllawiau i fanwerthwyr yn sicrhau y gall oedolion barhau i gael mynediad at wybodaeth am gynnyrch a gwybodaeth am brisiau ar gais.

Bydd gweithgarwch gorfodi hefyd yn gweithio i leihau unrhyw risg y bydd pobl yn cael eu gwthio tuag at gynhyrchion anghyfreithlon neu gynhyrchion nicotin a thybaco niweidiol eraill.

Ar y cyfan, nid oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol wedi'u nodi na ellir eu lliniaru drwy fesurau gweithredu, cyfathrebu, cymorth a gorfodi cymesur. Mae'r buddion disgwyliedig i iechyd y cyhoedd, cydraddoldeb a'r amgylchedd yn sylweddol fwy na'r effeithiau andwyol posibl a nodwyd.

**8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r gwaith fynd rhagddo, ac wedi iddo gael ei gwblhau?**

Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso effaith y cyfyngiadau arddangos drwy gyfuniad o wyliadwriaeth arferol, data gorfodi a gweithgarwch gwerthuso wedi'i dargedu. Bydd y ffocws ar a yw'r polisi yn cyflawni ei brif amcanion o leihau gwelededd, apêl a'r defnydd o gynhyrchion tybaco, fepio a nicotin ymhlith plant a phobl ifanc. Byddwn hefyd yn monitro'r defnydd o'r cynhyrchion gan oedolion sy'n smygu i sicrhau nad yw'r cyfyngiadau arddangos yn achosi canlyniadau anfwriadol i oedolion sy'n dymuno rhoi'r gorau i smygu neu smygu llai.

Byddwn yn defnyddio ffynonellau data presennol yng Nghymru a'r DU i fonitro niferoedd ieuenctid ac oedolion sy'n eu defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys Arolwg Cenedlaethol Cymru, y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, yr Astudiaeth Pecyn Cymorth Smygu ac arolygon ASH.

Byddwn hefyd yn monitro'r effeithiau ehangach a nodwyd yn yr asesiad effaith hwn. Mae'r rhain yn cynnwys cydymffurfiaeth manwerthwyr, gweithgarwch gorfodi gan Safonau Masnach, ac unrhyw dystiolaeth o werthiannau anghyfreithlon neu ddadleoli'r farchnad.

Cynhelir adolygiad ôl-weithredu o fewn pum mlynedd i'r polisi ddod i rym, yn unol â'r arfer adolygu rheoleiddiol sefydledig. Dylai'r adolygiad asesu a yw'r rheoliadau wedi cyflawni eu hamcanion, yn parhau i fod yn gymesur, ac yn parhau i gynrychioli'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni canlyniadau iechyd y cyhoedd.

Dylai hefyd ystyried a fu unrhyw ganlyniadau anfwriadol, gan gynnwys effeithiau ar roi'r gorau i smygu, busnesau manwerthu neu'r farchnad anghyfreithlon. Gall y dull gweithredu dynnu ar y dulliau a ddefnyddiwyd i werthuso rheoliadau arddangos tybaco blaenorol, a oedd yn archwilio canlyniadau iechyd, effeithiau busnes, lefelau cydymffurfiaeth a barn rhanddeiliaid.